

# Trugaredd

Trugaredd yw'r wedd honno ar y cariad dwyfol sy'n ymateb i'n gwendid a'n pechod ni.

## EMYNAU

**Y Duw sy'n llenwi'r bydysawd yw'r Duw sy'n gwrando ar lef yr unigolyn:**

Mae Duw yn llond pob lle,  
 presennol ymhob man;  
 y nesaf yw efe  
 o bawb at enaid gwan;  
 wrth law o hyd i wrando cri:  
 "Nesáu at Dduw sy dda i mi."

David Jones (*Caneuon Ffydd*: 76)

**Heb drugaredd a chariad Duw colli'r dydd a wna'r Cristion:**

Dy hen addewid rasol  
 a gadwodd rif y gwllith  
 o ddynion wedi eu colli  
 a gân amdani byth;  
 er cael eu mynych glwyfo  
 gan bechod is y nen  
 iacheir eu clwyfau mawrion  
 â dail y bywiol bren.

Morgan Rhys (*Caneuon Ffydd*: 191)

**Ynot ti y mae'r trugaredd fel y moroedd sy'n codi truan i'r lan:**

O tyred, Iôr tragwyddol,  
 mae ynot ti dy hun  
 fwy moroedd o drugaredd

nag a feddyliodd dyn:  
 os deui at bechadur,  
 a'i godi ef i'r lan,  
 ei galon gaiff, a'i dafod,  
 dy ganmol yn y man.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 316)

**Cymell fi i wneud dy waith yn y byd; nid rhag ofn y gosb na chwaith am y wobr:**

Mae arnaf eisiau sêl  
 i'm cymell at dy waith,  
 ac nid rhag ofn y gosb a ddêl  
 nac am y wobr chwaith,  
 ond gwir ddymuniad llawn  
 dyrchafu cyfiawn glod  
 am iti wrthyf drugarhau  
 ac edrych arna' i erioed.

Charles Wesley *efel*. Dafydd Jones (*Caneuon Ffydd*: 752)

**Y Duw sydd wedi maddau mil o feiau, maddau i minnau yn awr:**

Ti faddeuaist fil o feiau  
 i'r pechadur gwaetha'i ryw;  
 Arglwydd, maddau eto i minnau –  
 ar faddeuant 'rwyf yn byw:  
 d'unig haeddiant  
 yw 'ngorfoledd i a'm grym.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 321)

**Fel y dyddiau gynt cofleidia ni heddiw â'th drugaredd a chariad:**

Pa le mae dy hen drugareddau,  
 hyfrydwch dy gariad erioed?  
 Pa le mae yr hen ymweliadau  
 fu'n tynnu y byd at dy droed?  
 Na thro dy gynteddau'n waradwydd,

ond maddau galedwch mor fawr;  
o breswyl dy ddwyfol sancteiddrwydd  
tywynned dy ŵyneb i lawr.

*Dyfed (Caneuon Ffydd: 202)*

## GWEDDIAU

**Y cam cyntaf i dderbyn dy drugaredd di ydi agor y galon a chyffesu'r cyfan:**

Dad grasol, pwyswn ar dy drugaredd ac agorwn ein calonnau yn edifeiriol o'th flaen gan wybod nad oes dim yn guddiedig oddi wrthynt. Cydnabyddwn i ni bechu yn dy erbyn ar feddwl, gair a gweithred, tristáu dy Lân Ysbryd, peri gofid a loes i eraill a dwyn gwarth ar ein tystiolaeth. Amen.

*Y Duw Byw*

**Gwna ni'n barod i ddangos trugaredd a maddau i eraill:**

Cyflwynwn i ti mewn gweddi  
y rhai y buom yn ddig a diamynedd wrthynt,  
y rhai y buom yn siarad yn faleisus amdanynt,  
y rhai y buom yn ddilornus  
ac eiddigeddus ohonynt.  
Gwna ni'n barod i roi a derbyn maddeuant  
a bod yn gyfryngau ac yn adlewyrchiad  
o'th drugaredd di. Amen.

*Y Duw Byw*

**Diolchwn am ehangder dy drugaredd ac yng nghanol yr ehangder hwn rwy'ti wedi cofio am yr unigolyn:**

Diolchwn fod cylech dy drugaredd mor eang â phob cyfandir, pob llwyth a gwlad ac iaith. Diolchwn hefyd dy fod, yn dy drugaredd, wedi ein galw ni'n bersonol i edifeirwch a ffydd yn dy Fab Iesu Grist. Amen.

*John Treharne*

**Mae Iesu wedi dangos y trugaredd hwn yn ystod ei fywyd a'i farw:**

Yn bennaf, ein Tad, diolchwn i ti am dy drugaredd tuag atom yn Iesu Grist, ein Gwardwr. Diolch i ti am iddo ddod i'n byd 'dros ein pechod ni, a hefyd bechodau'r holl fyd'. Dymunwn brofi'r cariad hwn yn ein bywydau o'r newydd wrth inni gydnabod dy drugaredd tuag atom. Amen.

Geraint Hughes

**Boed i batrwm gweinidogaeth Iesu fod yn esiampl yn ein bywydau ni:**

Yng nghysgod dy drugareddau ar ein cyfer, ac wrth i ni ym mherson dy Fab, drwy ffydd, agor ein llygaid i sylweddoli ac i gydnabod y ffynhonnell, sef tydi dy hun, cynorthwya ni, ar batrwm bywyd Iesu, i ddangos trugaredd at eraill. Amen.

Eifion Arthur Roberts

**ADNODAU****Er i mi erlid a sarhau mewn anwybodaeth ac anghrediniaeth bu Duw yn drugarog wrthyf:**

Myfi, yr un oedd gynt yn ei gablu, yn ei erlid, ac yn ei sarhau. Ar waethaf hynny, cefais drugaredd am mai mewn anwybodaeth ac anghrediniaeth y gwneuthum y cwbl.

1 Timotheus 1: 13

**Mae'n Duw ni yn gyfoethog yn ei drugaredd ac am hynny fe'n hadfywiodd yng Nghrist:**

Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub.

Effesiaid 2: 4-5

**Bydd daioni a thrugaredd y Bugail yn dilyn yr unigolyn bob dydd o'i fywyd:**

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn  
bob dydd o'm bywyd,  
a byddaf yn byw yn nhŷ'r ARGLWYDD  
weddi ll fy nyddiau.

Salm 23: 6

**Duw sy'n maddau, yn iacháu, yn gwaredu a'm coroni â chariad a thrugaredd:**

Ef sy'n gwaredu fy mywyd o'r pwll,  
ac yn fy nghoroni â chariad a thrugaredd;

Salm 103: 4

**Mae'r rhai sy'n dangos thrugaredd at eraill yn siŵr o dderbyn thrugaredd:**

Gwyn eu byd y rhai trugarog,  
oherwydd cânt hwy dderbyn thrugaredd.

Mathew 5: 7

**Pan fyddwch â'ch bryd ar farnu a phwyntio bys cofiwch hefyd ddangos thrugaredd:**

Didrugaredd fydd y farn honno i'r sawl na ddangosodd drugaredd. Trech thrugaredd na barn.

Iago 2: 13

## **DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Mor hawdd yw cyfyngu addoliad i bedair wal adeilad crefyddol, yn hytrach na'i wneud yn fater o fyw pob dydd ynghanol y gymuned.

Cwestiwn Iesu yn nameg y Samariad Trugarog oedd, 'A phwy wnaeth drugaredd ag ef?' Yn ôl y ddameg ein cymydog sy'n gwneud thrugaredd â ni. Y bobl sydd mewn angen sy'n gwneud thrugaredd â ni. Ffurf ar drugaredd Iesu Grist tuag atom ni yw caniatáu i ni helpu, lliniaru a

chynorthwyo'r rhai mewn angen. Mewn gair, mae pawb sydd mewn angen yn esgor ar dosturi Iesu Grist ynom ni. Hwyl yw'r cymwynaswyr, nid ni.

Y gamp bob amser yw casáu pechod ond bod yn ddigon trugarog i dosturio wrth y troseddwr.

Trugaredd yw gwir olud yr Arglwydd; ac am hynny ni ddywedir ei fod yn gyfoethog mewn dim oddieithr mewn trugaredd a gras.

Emrys ap Iwan

Wyt ti'n dymuno derbyn trugaredd? Yna dangos drugaredd tuag at dy gymydog.

John Chrysostom